
Rhif 196 AWST - MEDI 2015

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD




## O am aros yn ei gariad ddyddiau f'oes

Pwy bynnag sy'n sychedig, deued ataf fi ac yfed (Ioan 7:37)

# PERERINDOD

## Y GYMDEITHAS HANES

gan Lionel Madden
Llywydd y Gymdeithas Hanes

Am y drydedd flwyddyn yn olynol cynhaliwyd pererindod lwyddiannus iawn gan y Gymdeithas Hanes. Y nod eleni oedd dathlu bywyd y pregethwr mawr **John Evans, 'Yr Eglwysbach'** a gafodd ei eni 175 o flynyddoedd yn ôl yn 1840. Fel o'r blaen, rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Robin Jones, aelod brwdfrydig ac egnïol o'r Pwyllgor Hanes, oedd yn gyfrifol am y trefniadau. Unwaith eto cawsom dywydd braf drwy gydol y dydd.


Fe wnaeth tua 60 ohonom ymgynnull ar 16 Mai yn festri Ebeneser, Eglwysbach, lle roedd aelodau o'r capel wedi paratoi lluniaeth hyfryd inni. Agorwyd ein pererindod gyda chroeso a gweddi gan weinidog y capel, y Parchedig Philip Barnett.

Ar ôl cinio aethom i eglwys y pentref. Roedd plant o Ysgol Eglwysbach wedi gwisgo fel plant o ail hanner y 19eg ganrif ac fe wnaethant ganu emynau o'r cyfnod. Rydym yn ddiolchgar dros ben i'r plant a'u rhieni ac i staff yr ysgol, Mrs Nia Daly a Mrs Nia Williams. Cawsom groeso i'r eglwys a gair pwrpasol gan Ficer y plwyf, y Parchedig Sarah Hildreth, am esiampl Cristnogion selog fel John Evans inni heddiw. Yng nghyfnod John Evans yr eglwys a chapel Ebeneser oedd yr unig addoldai yn y pentref ac maent wedi mwynhau perthynas gyfeillgar erioed.

Cawsom gyfle i gerdded i'r ysgol a adeiladwyd yn 1835 lle roedd John Evans yn ddisgybl. Trefnwyd bysys mini i fynd â ni ar daith gyffrous ar y ffyrdd cul uwchlaw'r pentref i ffermdy Goleugell a adeiladwyd yn 1840 ac a ddaeth yn gartref i John Evans pan oedd tua 7 oed. Cyn hynny roedd yn byw yn y Tŷ Du, nid nepell o Goleugell.

Yn fuan wedi tri o'r gloch daeth pawb yn ôl i'r capel ar gyfer gwasanaeth dathlu gyda Mrs Diana Hughes wrth yr organ. Agorwyd yr oedfa gan Ysgrifennydd y Gymdeithas Hanes, y Parch. Gwilym O. Jones a darllenodd y Parch. Ifor Jones o Lyfr Ecclesiasticus. Wedyn cyflwynodd Llywydd y Gymdeithas ein Siaradwr Gwadd, Dr Telfryn Pritchard. Bydd llawer o ddarllenwyr y *Gwyliedydd* yn cofio Telfryn, brodor o Lanrwst a phregethwr cynorthwyol am dros 50 o flynyddoedd, a wnaeth gyfraniad enfawr i Fethodistiaeth Gymraeg cyn iddo symud i fyw i Evesham rai blynyddoedd yn ôl. Pleser arbennig oedd cael cwmni ei wraig Elizabeth hefyd. Cawsom ein hysbrydoli gan anerchiad hyfryd iawn am fywyd a gwaith John Evans. Cyhoeddir y cyfan yn nes ymlaen yn nhudalennau ein papur hanes *Bathafarn Bach*. Dilynwyd yr anerchiad gan air pellach am John Evans gan y Parch. Arglwydd Roger Roberts. Diolchwyd i bawb gan Gadeirydd Synod Cymru, y Parch. Ddr Jennie Hurd.

Wedi'r gwasanaeth trefnwyd pryd o fwyd blasus inni yng Nghanolfan Bwyd Cymru Bodnant i orffen diwrnod arbennig o ddysgu a dathlu. Os nad ydych wedi bod ar un o'r pererindodau eto gobeithio y byddwch yn ystyried ymuno â ni y flwyddyn nesaf.


Dr Telfryn Pritchard yn annerch



Croeso cynnes gan gyfeillion Eglwysbach


Plant Eglwysbach



Croesawu'r siaradwr gwadd

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 196**
**AWST – MEDI 2015**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



***Golygyddion:***

**ROBIN JONES**
LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA
GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU:**
**1 MEDI, 2015**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "**Yr Eglwys Fethodistaidd – Synod Cymru**"

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


*Y clawr:*
*Eicon y Drindod Sanctaidd, gwaith y Tad Pefkis.*
*Diolch i Paul am y ffotograffiaeth.*


Diolchwn yn gynnes am roddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*:
£30 gan **Marian Jones** er cof am ei thad a'i mam, sef y Parchedig a Mrs. D. R. Evans.
£30 gan y **Diacon Gwenllian Roberts** Knighton, er cof am y Parchedig Donald Knighton.


# O'R GADAIR AR Y GOROR

**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

Ar drothwy blwyddyn gyfundebol newydd ym mywyd yr Eglwys Fethodistaidd ar 1 Medi, **dymunaf ichwi "Flwyddyn Newydd Dda"** a phob bendith ar gyfer y deuddeng mis sydd i ddod. Dyma'r tymor pan fydd symudwyr dodrefn yn gwneud llawer o arian allan o'r Eglwys Fethodistaidd, wrth i'n gweinidogion symud a chael eu croesawu i'w cylchdeithiau newydd drwy Brydain gyfan. Cofiaf yn dda y gwasanaeth croeso pan ddechreuais i fy rôl bresennol fel Cadeirydd Synod Cymru ac Arolygydd Cylchdaith Cymru, ddwy flynedd yn ôl, ac rwyf yn hynod ddiolchgar am y croeso rwy'n parhau i'w dderbyn ym mhob man. Diolch i chwi i gyd.

Yn ôl y bardd Eingl-gymreig, Ann Drysdale, yn ei cherdd "Language Difficulty" (*Twentieth Century Anglo-Welsh Poetry*, Seren, 1990), mae *hwyl* a *hiraeth* yn eiriau (ac felly yn gysyniadau) hollol nodweddiadol o iaith a phobl Cymru. Rwy'n siŵr ei bod hi'n hollol iawn, ac fe ychwanegwn fod *croeso* hefyd yn air a chysyniad sy'n agos at galon y Cymry. Mae'r **croeso Cymreig** yn arbennig iawn. Dim syndod, felly, clywed bod Abertawe a Chaerdydd yn **Ddinasoedd Lloches** sy'n croesawu ffoaduriaid o Ogledd Affrica a'r Dwyrain Canol:

http:// swansea.cityofsanctuary.org/
http://cardiff.cityofsanctuary.org/

a bod Cymru'n ceisio dod yn Genedl Lloches gyntaf y byd. Gwaith hynod o bwysig. Ar nodyn ysgafnach, maint ffrog 14 ydw i (jyst!), ond y croeso Cymreig sy'n gyfrifol fy mod yn agosáu at fod yn faint 16! Yn Lloegr, mae "Dewch am baned" yn aml yn golygu paned, a bisged hefyd, os ydych chi'n lwcus. Yng Nghymru, mae'n golygu y cewch chi baned, a chacen, a sgons, a chacennau cri, a..! I rywun fel fi, sydd mor hoff o'i bwyd, mae'n nefolaidd, ond ddim cystal i'r wasg, yn anffodus! Mae'n rhaid i mi ddysgu tipyn bach o hunanddisgyblaeth - ryw ddydd...

Wrth i ni gychwyn ar flwyddyn gyfundebol arall efo'n gilydd yn Synod Cymru, mae'n dda dechrau canolbwyntio ar **ail thema ein prosiect "Datblygu Ein Galwad"**. Rydym wedi penderfynu ceisio rhoi ffocws ar un thema y flwyddyn o blith themâu "Ein Galwad" yr Eglwys Fethodistaidd dros gyfnod o bedair blynedd – sef Dysgu a Gofalu, Gwasanaethu, Efengylu ac Addoli. Ar ôl canolbwyntio ar Ddysgu a Gofalu yn ystod 2014-2015, thema 2015-16 yw Addoli. Nid ein bod yn rhoi'r gorau i'r gwaith da a ddechreuwyd eisoes o dan thema Dysgu a Gofalu, ond yn hytrach fe barhawn i ddatblygu ein galwad gan ychwanegu ffocws newydd. Unwaith eto, fel y llynedd, bydd adnoddau ar gael i'n helpu ni, o dan arweiniad ein Swyddog Dysgu a Datblygu, Delyth Wyn Davies, a gobeithio y bydd y ffocws yma o les i ni i gyd.

Mae gan bobl Fethodistaidd enw da am fod yn groesawgar, ac efallai y bydd y thema newydd yn rhoi cyfle inni feddwl yn arbennig am arwyddocâd cysyniad croeso yng nghyd-destun ein haddoliad. Mae 'na arfer, weithiau, o "roi croeso" i Dduw wrth inni gychwyn oedfa, ond yn wir, **Duw ei hunan sy'n ein croesawu ni'n raslon** i ymwybyddiaeth arbennig o'i bresenoldeb efo ni. Mae i hyn oblygiadau pwysig o ran ein croeso i'n gilydd, yn enw Duw, ac yn arbennig y croeso a roddwn i bobl newydd i'n gwasanaethau. Yn y lle cyntaf, ydyn ni'n rhoi cyfle i bobl newydd fynychu ein gwasanaethau? Mae'n wych clywed am gapeli sy'n hysbysebu eu hoedfaon yn y papur newydd lleol, a gweld hysbysfyrddau yn rhoi gwybodaeth gyfoes am wasanaethau, tu allan i rai o'n capeli. Ond sylweddolais hefyd fod rhai capeli heb ddim math o wybodaeth am eu gwasanaethau tu allan i'r drws o gwbl. A yw'n bosib croesawu pobl newydd i addoli efo ni wedyn? Tybed a yw hyn yn rhywbeth i'w ystyried yng Nghyfarfod yr Ardal neu Gyfarfod Blynyddol y capel o dan thema "Datblygu Ein Galwad"...?

Fe gawn y pleser mawr o roi croeso i weinidog newydd yn Synod Cymru ar ddechrau'r flwyddyn gyfundebol hon! Mae'r **Diacon Jonathan Miller** yn symud i fyw yn Abergele efo'i deulu ym mis Awst er mwyn gwasanaethu yn Ardaloedd Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd. Bydd cyfle inni i gyd eu croesawu mewn **gwasanaeth arbennig yng Nghapel Bethel, Prestatyn am 2.30 ar ddydd Sadwrn 12fed Medi**. Dewch yn llu! Gadewch i ni roi croeso cynnes i'n gilydd yn enw Duw, sy'n ein croesawu ni, yn enw Iesu Grist.

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu'r diweddar Barchedig Raymond Hughes a fu farw ar 23 Mehefin, 2015. Cyhoeddir coffâd iddo yn y rhifyn nesaf.

# O'r pen yma



gan Angharad Tomos

## LAN Y MÔR

Ges i frecwast ar lan y môr y bore 'ma. Bûm i weld ffilm neithiwr am wraig a gollodd ei chof, ac wrth iddi ddal gafael ar hynny o atgofion oedd ganddi, lluniau o lan y môr ddeuai i'w chof. Rydw i'n fwy ffodus na'r rhelyw, rwy'n byw o fewn llai na dwy filltir i Ddinas Dinlle, Sir Gaernarfon.

Fel llawer o lefydd sydd yn agos atom, dydyn ni ddim yn ymweld â hwy hanner ddigon aml. Felly y bore yma, tua chwech o'r gloch, dyma ddeffro'r mab, a ffwrdd â ni i lawr i lan y môr. Doedd o ddim yn frecwast crand, dim ond tafell o fara, mymryn o fenyn, jam a fflasg o ddŵr poeth. Ond mi dyrchais am y fasged bicnic, y stôf, a'r ddyfais i wneud tost pan fyddwn yn gwersylla. Roedd digon o newydd-deb am y pethau hyn i ddeffro atgof am fyw yn yr awyr iach; roedd yn arwydd fod yr Haf wedi cyrraedd.

Ew, ddaru mi rioed ddychmygu y byddai paned o gwpan blastig a thost heb fod wedi ei dostio'n berffaith yn rhoi y fath fwynhad i mi! Ond gwledda ar yr olygfa yr oeddwn mewn gwirionedd – Llanddwyn ar y dde, yr Eifl ar y chwith, a'r haul cynnar yn taenu ei wres egwan ar bopeth.

Fuon ni ddim yno'n hir - rhyw gwta hanner awr, ond mi wnaeth wahaniaeth i'r diwrnod. Rôn i'n teimlo mewn cytgord efo'r ddaear. Ers hynny, rydw i wedi gwneud ymdrech i glwydo'n gynt fel fy mod yn gallu deffro'n gynt, i fwynhau y bore bach.

Dwi'n meddwl fod Duw eisiau inni deimlo yn un â'r ddaear. Yn oriau cynnar y dydd, mae gwir dangnefedd i'w deimlo. Dydi brys a ffwdan yr oes fodern ddim wedi dechrau ein cynhyrfu.

A wyddoch chi y lle braf hwnnw rydych yn breuddwydio amdano'n aml? Y llecyn hwnnw sy'n arbennig i chi, ac yn ennyn llu o atgofion hapus, neu sy'n wledd i'r llygaid? Does na byth amser i fynd yno, ond mae o yno yn disgwyl amdanoch.

Ewch yno, da chi. Dim ond diwrnod braf sydd ei angen. Ewch a mwynhewch, a diolchwch amdano. Gorau oll os cewch chi gyfle i fynd â thamaid o bicnic efo chi!

# CRIST YN EIN GALW

gan Dafydd Iwan



Pan ofynnwyd imi ysgrifennu llith i'r *Gwyliedydd* ar y thema "Addoliad", fe'm gorfodwyd i sylweddoli – efallai am y tro cyntaf yn fy mywyd – nad oeddwn yn teimlo'n gyfforddus gyda'r syniad o "addoli". Pam hynny? Wel, fel un sy'n cynnal oedfaon yn rhywle neu'i gilydd bron bob Sul, dwi'n gweld fy hun fel un sy'n ceisio ymgodymu gyda'r efengyl, yn ceisio fy ngorau i'w dehongli mewn cyd-destun cyfoes, ac yn falch o gael datgan fy mod yn credu yn Iesu Grist ac yn diolch i Dduw am ei ofal drosom mewn byd mor ddi-ddal â hwn. Ond nid "addoli" fyddai'r gair y byddwn i'n ei ddefnyddio i ddisgrifio hyn oll.

Y rheswm mae'n debyg yw fod "addoli" yn awgrymu plygu o flaen delw, ac y mae gormod o hynny yn digwydd yn ein byd ni heddiw. Ryden ni wedi creu rhyw ddiwylliant ffug o bobol "enwog", pobol sy'n cael sylw am eu bod yn bencampwyr mewn rhyw gêm neu'i gilydd, neu'n gwerthu miliynau o recordiau, neu i'w gweld mewn ffilmiau treisgar anhygoel, neu'n ffitio'r syniad cyfoes o brydferthwch, neu'n perthyn i deulu brenhinol, neu'n syml yn enwog am fod yn enwog. Y rhain yw'r "selebs" bondigrybwyll, ac y mae peryg mawr bod miliynau yn eu "haddoli". Mae'n ffordd o ddianc rhag realaeth bywyd, rhag tlodi a newyn a rhyfel, ac esgus fod ein byd yn iawn fel y mae.

Mae efengyl Crist yn rhoi inni brydferthwch a llawenydd – a her – o fath arall, sy'n cadw ein traed ar y ddaear i sylweddoli beth mewn gwirionedd sy'n digwydd i bobol. Nid yw'n disgwyl inni ddianc rhag y byd a'i boen, ond yn hytrach ei wynebu yn ei holl ogoniant a'i holl erchyllter. A Duw sy'n rhoi ystyr i'r cyfan, ac yn rhoi inni reswm dros ddal ati i ymladd y drwg a chynnal y da, i weithio dros y gwerthoedd a amlygwyd ym mywyd y rebel mwyn a'r tywysog heddwch a groeshoeliwyd drosom ni.

Ydi, mae'n disgwyl inni ei ddyrchafu, ond nid ei ddyrchafu fel brenin bydol, ond fel un sy'n medru ein codi ninnau i bethau uwch. Down at ein gilydd i ystyried ei neges, i'w foli ar bob cyfri, ond yn bennaf i ymateb i'r alwad i barhau yn y frwydr i wella'r byd a gwella ansawdd bywyd ein brodyr a'n chwiorydd. Ac y mae hynny'n bwysig am ein bod yn fwy na chig a gwaed, am ein bod yn eneidiau ysbrydol hefyd, ac am fod bywyd yn gysegredig. Mewn byd lle gwelwn hyd yn oed crefydd ei hun yn cael ei cham-ddefnyddio yn y modd mwyaf erchyll i gyfiawnhau lladd pobol a phlant diniwed, mae'n rhaid inni ddal ati i ymateb i alwad y saer o Nasareth i orseddu cariad yn y byd.

Ond i ddod yn ôl am funud at y cais a dderbyniais, a gofyn ai dod ynghyd i "addoli" yr yden ni ar y Sul? Mae'n wir mai dyna yw'r ymadrodd traddodiadol, a fuaswn i ddim yn beirniadu neb am ddefnyddio'r gair, ond ceisio mynegi ydw i yn hyn o lith efallai y dylem ddefnyddio geiriau sy'n cyfleu'r her a osodwyd inni gan Grist. Ac y mae'r her honno heddiw yn un glir iawn ar inni gydweithio mwy fel Cristnogion i wneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd gennym, er mwyn ymateb i'r her yn fwy effeithiol. Efallai fod "addoli" yn cyfleu cyflwr rhy oddefol, a dim digon ymosodol. Rhaid ymegnïo yn y gwaith o ddilyn Crist, a dangos ein bod yn barod am y frwydr, ac i wneud hynny, mae'n rhaid inni gael gwared o beth o gloffrwymau'r gorffennol.

## DIOLCH



Hoffwn ddiolch, trwy gyfrwng y *Gwyliedydd*, i bawb a wnaeth fy noddi i deithio o amgylch Prydain ar drên, a hynny mewn saith diwrnod, yn ôl ym mis Ebrill eleni. Fy mwriad oedd defnyddio'r 27 cwmni trên a ganiateir gyda'r *Seven Day All Line Rover Ticket* ac mi lwyddais i gwblhau fy sialens mewn chwe diwrnod felly cefais gyfle i ymlacio ychydig ar y diwrnod olaf. Cefais daith fythgofiadwy gan weld llawer iawn o wahanol lefydd, o Ynys Wyth yn y de i Kyle of Lochalsh yn y gogledd. O ganlyniad i haelioni pawb rwyf wedi anfon seiciau o £300 yr un i'r R.N.L.I ac i'r "Railway Children" – elusen sy'n helpu plant a phobl ifanc sy'n rhedeg i ffwrdd o gartref ac sy'n aml yn troi fyny mewn gorsafoedd rheilffordd. Diolch yn fawr iawn.

**Owain Dafydd Morgan**
Llety'r Bugail, Gwersyllt

# CLODFORI ANIFEILIAID



gan
Dewi Rhys

Mae'r ci acw yn heneiddio ac felly hefyd y gath. Mae cyfanswm oed y ddau yn fwy na phump ar hugain. Dros gyfnod o hanner can mlynedd bu pum ci acw felly rhaid cyfaddef fy mod yn eithaf hoff o gŵn ac anifeiliaid yn gyffredinol. Ond brysiaf i ychwanegu nad wyf yn un o'r bobl hynny sy'n caru anifeiliaid yn angerddol, yn fwy na dim arall yn y byd, gan daflu arian eu hewyllys i goffrau rhyw sefydliad sy'n honni gwarchod anifeiliaid gwyllt neu sy'n rhoi cartref i anifeiliaid sy'n cael cam.

Nid oes dim byd gwaeth na gweld perchnogion yn rhoi eu creadur anwes o flaen popeth arall; mae'n wyrdroëdig eu gweld yn trin y ci fel rhyw ffug fabi ac yn ei wisgo â chot wlân neu bedwar esgid costus.

Fel arfer yr anifeiliaid sy'n cael eu trin yn y modd yma yw'r rhai mwyaf afreolus: perchnogion o'r fath sydd heb unrhyw reolaeth dros eu hanifail.

Mi allaf ymfalchïo fy mod wedi dysgu pob ci fu gennyf i fod yn ufudd a synhwyrol, fel y gellir ymddiried ynddynt i beidio â dianc, ymosod ar bobl, dwyn bwyd ac ati. Nid oes angen cadwyn ar y ci acw pan awn am dro. Pan fyddaf yn y gwaith bydd hi'n rhydd yn yr ardd a gwn na fydd yn cyfarth neu udo gan styrbio fy nghymdogion.

Er nad oes gan fy nghi waith ar fferm na dim byd felly, mae'n talu nôl imi am roi bwyd a lloches iddi drwy fy nhynnu allan o'r tŷ i gerdded milltiroedd ym mhob tywydd; mae'n cael gwared o fwyd sydd ar ôl; ac mae'n gwrando arnaf yn dysgu sgriptiau. Ar noson aeafol mae'n cynnig cwmni ac yn fy nifyrru drwy arddangos ei thriciau di-ben-draw.

Ond cofiwn hefyd fod anifeiliaid yn ganolog i wahanol gredoau crefyddol ers canrifoedd. Ystyriwch y ci sy'n rhan bwysig o ŵyl grefyddol yn Nepal; ac yna, yn wahanol iawn i hynny, petaech yn croesi'r goror tua Tsieina byddech yn canfod gŵyl lle lleddir miloedd o gŵn. Mae'n adnabyddus fod Hindwiaid yn anrhydeddu'r fuwch ac yn India ceir gŵyl yn moli'r teigr yn ogystal â'r neidr. Yng ngwlad Thai yr eliffant sydd ar flaen y gad gan fod rhai yn credu bod enaid dyn yn cael ei drosglwyddo i'r anifail anferth yma.
Credwch neu beidio ond bydd eliffantod yn cael eu dysgu i addoli a moesymgrymu o flaen y temlau! Ers y dyddiau cynnar yn hanes dyn, yn yr Aifft a Groeg, y mochyn oedd y prif chwaraewr o ran clodfori anifeiliaid. Yn nes gartref, ceffylau oedd yn bwysig yn Ewrop, yn enwedig gan y Rhufeiniaid a thrigolion gwlad Twrci.

Felly mae'n debyg nad yw'n fawr o syndod fod pobl yn meddwl y byd o'u hanifeiliaid anwes ac, o ran hynny, fod rhai yn credu fod cŵn yn fwy talentog na chôr dawnus a swynol ar y rhaglen 'Britain's got Talent'. Wel wir, mae'n amser imi fwydo'r gath a mynd â'r ci am ryw dro bach...

## Cymdeithas Dydd yr Arglwydd yn Cyfarfod yn Llanfyllin

gan y Parchedig
J GWYNDAF RICHARDS

Tro Llanfyllin oedd gwahodd Cymanfa Flynyddol Cymdeithas Dydd yr Arglwydd eleni a chynhaliwyd y gymanfa ar bnawn a nos Sul, 28ain o Fehefin. Daeth cynulliad da i'r ddau gyfarfod. Am 3.30 y.p. cafwyd oedfa ym Mhendref gyda'r Parchg Gwilym O. Jones, Cadeirydd Pwyllgor Cymdeithas Dydd yr Arglwydd, yn llywyddu. Dechreuwyd y cyfarfod gyda defosiwn yng ngofal y Parchg Eric Green, y Bala, a chafwyd orig ddifyr yn gwrando ar gyflwyniad **Dr. Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch ar yr emynyddes Ann Griffiths, y person a'i hemynau**. Cafwyd lluniaeth helaeth wedi ei drefnu gan chwiorydd Tabernacl a Phendref yn ysgoldy Tabernacl cyn cyfarfod yr hwyr, a gynhaliwyd yno. Llywyddwyd yr ail gyfarfod gan y Parchg. Ddr. D. Ben Rees, Ysgrifennydd Cymdeithas Dydd yr Arglwydd ac agorwyd y cyfarfod gyda defosiwn o dan arweiniad y Parchg. J. Gwyndaf Richards. Cafwyd **cyflwyniad arbennig sef portread o Sali, gwraig Thomas Charles o'r Bala, gan Gwmni Penllyn dan arweiniad y cynhyrchydd Mair Penri Jones**. Buddug Medi oedd awdur y cyflwyniad a hi oedd y cyflwynydd. Cafwyd Cymanfa Sul fendithiol a llwyddiannus yn Llanfyllin eleni. Mae'r Gymanfa'n cael ei chynnal ar y pedwerydd Sul ym Mehefin mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru bob blwyddyn ac yn y Gogledd a'r De bob yn ail flwyddyn.

# *Planhigion y Beibl*

gan W. Arvon Roberts



**75. Pomgranad (Punica granatum)**
Yr oedd Saul yn aros yng nghwr Gibea, dan y pren pomgranad sydd yn Migron.
1 Samuel 14: 2

Yn y stori hon o'r Hen Destament, disgrifir gorchest Jonathan yn Michmas. Ystyr pomgranad yn llythrennol yw "afal â grawn ynddo", sydd yn cyfeirio at yr hadau llawn sudd, lliw rhuddem clir, wedi'u gorchuddio â chroen caled melynfrown, sydd i'w cael ym mhob ffrwyth. Mae'n ddanteithfwyd adfywiol i breswylwyr gwledydd poeth. Mae'r planhigyn hwn yn tyfu'n wyllt ym Mhersia, Syria a mynyddoedd Gogledd India, naill ai'n llwyn isel neu'n goeden fach gyda choes syth, rhisgl cochlyd a llawer o frigau lledaenol. Mae'r blodau yn lliw rhuddgoch a phan fydd y ffrwyth yn aeddfed mae ei faint yn debyg i faint oren. Gelwir y sudd a wneir o'r hadau yn grenadin. Defnyddir y blodau i baratoi moddion i drin disentri; defnyddir y rhisgl a'r gwreiddiau i drin lledr ac i rwymo llyfrau. Mae llingerfiadau yn dangos pomgranadau ar sicl arian Jerwsalem a oedd mewn cylchrediad o 143 i 135CC ac roedd godre gwisg yr offeiriaid Iddewig wedi'i frodio â phomgranadau.



**76. Poplysen (Populus alba)**
Yna cymerodd Jacob wiail gleision o boplys ac almon a ffawydd, a thynnu oddi arnynt ddarnau o'r rhisgl, gan ddangos gwyn ar y gwiail.
Gosododd y gwiail yr oedd wedi eu rhisglo yn y ffosydd o flaen y praidd, wrth y cafnau dŵr lle byddai'r praidd yn dod i yfed. Gan eu bod yn cyfebru pan fyddent yn dod i yfed, cyfebrodd y praidd gyferbyn â'r gwiail, a bwrw ŵyn wedi eu marcio'n frith a broc.
Genesis 30: 37-39.

I rai pobl, mae'r stori am Jacob yn y bennod hon yn wyrthiol; i eraill, dyma'r enghraifft gynharaf i'w chofnodi o fagwraeth ddetholus, bron i bedair mil o flynyddoedd yn ôl. Beth bynnag am hynny, mae'r boplysen y cyfeirir ati i'w chael ym mryniau Palestina, lle mae'n tyfu rhwng deg ar hugain a thrigain troedfedd, ac mewn rhannau o Galilea, Lebanon a Mynydd Hermon. Yn ogystal, mae hefyd yn ffynnu mewn mannau gwlyb yn Syria. Mae Hosea 4:13 yn cofnodi: "Y maent yn aberthu ar bennau'r mynyddoedd, ac yn offrymu ar y bryniau, o dan y dderwen, y boplysen a'r llwyfen, am fod eu cysgod yn dda..."

CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Jerwsalem, Johnstown

**ER COF ANNWYL AM ROSAMOND**
Bu farw Rosamond Williams ar Fehefin 6ed, yn 93 oed. Ganwyd Rosa yn fferm Bronheulog, Llansilin, yr ieuengaf o blant Samuel a Margaret Williams. Roedd yn chwaer i Tom, Morfydd, Osmond, Meirwen a Ted. Pan oedd Rosa yn ifanc iawn bu farw ei thad yn 47 oed ac yn fuan wedyn cymerwyd ei mam yn wael hefyd. Cawsant flynyddoedd anodd iawn. Aeth Rosa o Ysgol Llanfyllin i'r brifysgol yn Aberystwyth gan raddio mewn botaneg. Bu'n athrawes yng Nghaerdydd, Dinbych ac yna Ysgol Gyfun Rhiwabon lle bu'n Ddirprwy Bennaeth. Wedi ymddeol bu'n gefnogol i lawer o gymdeithasau lleol, yn enwedig Cyfeillion Ysbyty Maelor. Cafodd hefyd foddhad mawr yn mynd i wersi peintio a dosbarthiadau ysgrifennu creadigol.

Trwy gydol ei bywyd roedd yr eglwys yn agos iawn at ei chalon. Bu'n ysgrifennydd Jerwsalem am gyfnod maith ac roedd hefyd yn bregethwr. Bydd y golled yn fawr ond nid oes modd meddwl am Rosa heb i wên fach ddod i wyneb rhywun! Roedd yr angladd yng ngofal y Parchedigion Marc Morgan, Dennis Griffiths a Gwyndaf Richards, gyda Mrs Siân Williams wrth yr organ. Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd.

*Gohebyddion – Y Parchedig Marc Morgan a Lynda Thomas*

## Bethel, Rhiwbeina

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlir â'r ddwy chwaer, Iola James a Nerys Smith, a'u teuluoedd ar golli eu brawd Dewi Vaughan Owen yn ddiweddar a hynny'n annisgwyl a sydyn.

**PRIODAS**
Priodwyd Nia Laugharne a Huw Talfryn Walters yma ym Methel, gyda'r gweinidog y Parchedig T Evan Morgan yn gweinyddu. Mae Nia yn ferch i Mair Jenkins a Phillip Laugharne. Dymunwn briodas hapus iawn iddynt.

**CYMDEITHAS BETHEL**
Ar 23 Mehefin aeth nifer o'r aelodau am dro o gwmpas gerddi'r Amgueddfa yn Sain Ffagan cyn ymuno â rhai o'r aelodau hŷn i gael pryd o fwyd yn y 'Plymouth Arms' gyferbyn â'r Amgueddfa.

**YMWELYDD**
Fore Sul Mehefin 24ain cafwyd cyfle i groesawu Luned Gonzales i'r oedfa ym Methel. Mae Luned yn un o ddisgynyddion Michael D Jones a Lewis Jones, sylfaenwyr y Wladfa ym Mhatagonia.

**MIS AWST**
Ni chynhelir oedfaon ym Methel yn ystod mis Awst ond bydd oedfa am 10.15 y bore ar 6 Medi.

*Gohebydd – Gwilym E. Roberts*

## Eglwys Unedig Colwyn

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau i Mrs Dora Jones a Mrs Megan Williams, ill dwy wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion caredig hefyd at bawb arall sy'n wael.

**CYMANFA GANU**
Cynhaliwyd Cymanfa Gyd-enwadol Dyffryn Conwy yn Horeb ar ddydd Sul 5 Gorffennaf.

**GWASANAETH ARBENNIG**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Gollwng y Parchedig R. Ifor Jones yn Horeb ar 11 Gorffennaf. Mae Ifor wedi bod yn gofalu amdanom am un mlynedd ar ddeg a mawr yw ein diolch iddo ef a Rhian am eu gofal.

**COED CRAIG**
Cynhaliwyd Ffair Haf Flynyddol Coed Craig yn Ysgoldy Eglwys Fethodistaidd San Siôr, Llandrillo yn Rhos ar 18 Gorffennaf. Bydd rhagor o hanes y digwyddiadau uchod yn y rhifyn nesaf.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## St Paul, Aberystwyth

**COLLEDION**
Mewn cyfnod byr rydym wedi colli dwy aelod o'n cynulleidfa fach. Ar 26 Mai, yn 74 oed, wedi cyfnod hir o waeledd, bu farw Mrs **Evelyn Foster Evans**. Roedd Evelyn yn ferch i'r Parchedig a Mrs A. Percival Hughes ac yn chwaer i Eleri a'r ddiweddar Barbara. Cynhaliwyd yr angladd dan arweiniad y Parchedig James Patron Bell. Talwyd teyrnged hyfryd i'w fam gan un o'i meibion, Dylan. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i gŵr Ray a'r teulu i gyd yn eu hiraeth amdani.

Yna ar 13 Mehefin, bu farw un o'n haelodau hynaf, Miss **Gwenda Edwards,** yn 92 oed. Magwyd Gwenda yng nghapel Siloam yn Aberystwyth ac wedi i Siloam gau bu'r teulu'n addoli yng nghapel St Paul. Wedi oes hir yn Heol Greenfield, yn ei blynyddoedd olaf symudodd Gwenda yn hapus iawn i Gartref Preswyl Bodlondeb. Cynhaliwyd yr angladd dan arweiniad y Parchedig James Patron Bell. Talwyd teyrnged iddi gan gyn-Faer Aberystwyth, Mr John James. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w theulu a'i chyfeillion.

*Gohebydd – Lionel Madden*

## Pendref, Dinbych

**BORE GOFFI / FFAIR WANWYN**
Cafwyd bore goffi/ffair wanwyn ar Fai 16eg, yn Eirianfa, Dinbych. Roedd yn fore dymunol iawn gyda stondinau amrywiol – planhigion, taffi triog, cynnyrch cartref, tombola ac eliffant gwyn. Diolch i'r holl aelodau am eu cymorth a'u cyfraniadau.

**BRYSIWCH WELLA**
Braf clywed fod Mrs Diana Roberts yn gwella ac wedi dod adref o'r ysbyty. Anfonwn ein cofion ati.

**PEN-BLWYDD**
Dymunwn ben-blwydd hapus i'r Parchedig Cledwyn Parry.

*Gohebyddion – Mary Jones a Rhiannon Rogers*

## Tabernacl, Llanfyllin

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Cynhaliwyd oedfa undebol yn y Tabernacl ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol, o dan ofal y Parchedig Gwyndaf Richards gyda chymorth Ros Crawford, Rhoswen Charles, Eva Roberts a Tom Ellis, ynghyd ag Ysgrifennydd Gogledd Cymru sef Anna Jane Evans. Dangosodd Anna ffilm ar brosiect sy'n digwydd yn Ethiopia a bu'n sgwrsio â phlant yr Ysgol Sul. Yr organydd oedd Eldrydd Jones a thalwyd y diolchiadau gan Robin Hughes. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cymorth Cristnogol, cangen Llanfyllin, ar 31 Mai ac fe nodwyd bod cyfanswm o £2122.45 wedi'i gasglu yn ystod y flwyddyn. **Cynhelir y Bore Coffi Blynyddol yn festri Eglwys Myllin Sant ar 19 Medi**.

**DRWS AGORED**
Yng nghyfarfod Mai, cafodd yr aelodau arddangosiad lliwgar o waith llaw ein siaradwr, Ruth Weston, sydd newydd ymgartrefu yn Llanfyllin gyda'i theulu. Teitl y sgwrs oedd **'Knit One, Pray One'**. Siaradodd Ruth am y budd ysbrydol ac emosiynol a ddaeth i'w rhan drwy'r gwaith syml o wau a chrosio; roedd **yr hobïau hyn yn tawelu'r meddwl gan arwain at weddïo dyfnach**. Cyffelybodd hyn i'r traddodiad o ddefnyddio llaswyr neu fwclis gweddi. Daw pobl yn nes at ei gilydd drwy wau gyda'i gilydd mewn teulu, grŵp crefftau neu encil. Ym Mehefin, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Drws Agored; diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i'r Gymdeithas a chrybwyllwyd y rhoddion a gyflwynwyd i amryw o achosion da yn ystod y flwyddyn.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn gywir iawn â **Harri Jones, Dalar Las** a'r teulu ym marwolaeth nain Harri yn Llangefni. **Hefyd â theulu Gwalia gynt**, sef

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

Eldrydd, Tecwyn, Eifion ac Eryl a'u teuluoedd, yn dilyn marwolaeth Mrs Cassie Morgan. Ers bron i ddeng mlynedd roedd Mrs Morgan yn byw gyda'i merch, Eldrydd, yn Tyntwll ac fe gyrhaeddodd yr oedran hynod o 102. Roedd yn gymeriad hoffus ac yn gefnogol iawn i nifer o fudiadau lleol. Cyflwynwyd teyrngedau hyfryd iawn iddi gan Mr Tecwyn Morgan, ei mab, a'r Parchedig Gwyndaf Richards ac ar lan y bedd darllenwyd englyn o waith Mr Robin Hughes:

Wylwn â theulu'r Gwalia – colli nain
colli hen nain anwyla';
clod i hon, mam ffyddlona'
'rôl oes o hau'r doniau da.

Cydymdeimlwn **hefyd â theulu Tawelfa**, yn dilyn marwolaeth chwaer Mair sef Elizabeth Williams. Estynnwn ein cydymdeimlad â Gareth sef priod Elizabeth a'u mab Alun. Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Barchedig **Raymond Hughes**, a frwydrodd mor ddewr â salwch hir a chreulon.

**SUL Y MAER**
Cynhaliwyd oedfa flynyddol Sul y Maer yn y Tabernacl ar 7 Mehefin dan ofal y Parchedigion Gwyndaf Richards a Darren Mayor. Yr organydd oedd Llywela Roberts. Rhoddwyd y casgliad o £170 at elusen o ddewis y Maer, y Cynghorydd Ann Williams, sef Ambiwlans Awyr Cymru.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau calonnog i Rhodri Jones, Yr Ogof, ar ei lwyddiant yn ennill yr Unawd 19-25 oed yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Cylch a chael cystadlu am Ysgoloriaeth Bryn Terfel. Llongyfarchwn Rhodri a Huw Jones, Dolwar, yn ogystal, ar ennill y Ddeuawd Cerdd Dant.

**DYMUNIADAU GORAU**
Pob dymuniad da i **Betty Ellis** sydd wedi ymgartrefu yn Llwyn y Rhedyn, ac i **Nellie Humphreys** sydd nawr yn Llwynteg. Gwellhad buan hefyd i **Mari Jones**, Bodyddon; mae Mari yn un o'r rhai sy'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn gwasanaethau pobl ifanc yn y Tabernacl.

**CYMANFA UNDEBOL LLANFYLLIN**
Daeth nifer da i Gymanfa Undebol Llanfyllin yng Nghapel Pendref nos Sul, 14 Mehefin. Yr arweinydd gwadd oedd Mrs Iona Jones, Llansilin a Mrs Pauline Page-Jones oedd wrth yr organ. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Mrs Eirlys Richards. **Gwobrwywyd y plant am eu hymdrech arbennig i gasglu at y genhadaeth: roedd y cyfanswm eleni yn £394**. Cafwyd detholiad cymeradwy o emynau a thonau newydd ynghyd ag ambell emyn cyfarwydd, gan orffen yn orfoleddus gyda geiriau Morswyn "Craig yr oesoedd fydd fy nghân" ar y dôn fawr gan Caradog Roberts, 'In Memoriam'.

*Gohebyddion – Robin Hughes a'r Parch. Gwyndaf Richards*

## Pontrobert

**GWELLHAD**
Pob dymuniad da am adferiad buan i Gwen Jones, Penwtra a hefyd i'w hwyres Mari Jones o Lanfyllin.

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau i Rhodri Prys Jones, ŵyr i Gwen a Tegwyn Jones, ar ei lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili a phob dymuniad da iddo yng nghystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel ym mis Hydref.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Susan Evans Hughes, gweddw'r Parchedig Raymond Hughes. Mae gennym atgofion hapus am ei gyfeillgarwch pan ddeuai i ymweld â ni ar y Sul. Cydymdeimlwn hefyd â Mair Jones y bu farw ei chyfnither sef Mrs Cassie Morgan, Llanfyllin.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**DATHLU 125 MLYNEDD**
Cawsom fore coffi arbennig i ddathlu carreg filltir yn hanes Preswylfa. Carem ddiolch yn fawr iawn i bawb am helpu i wneud yr achlysur yn un mor llwyddiannus. Codwyd swm sylweddol iawn sef £835.70. Diolch hefyd i'r Parchedig Philip Barnett am oedfa arbennig lle bu'n olrhain hanes codi'r capel. Mae drws Preswylfa yn dal ar agor i bawb.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau am wellhad buan iawn i Mrs Eirwen Jones sydd wedi cael triniaeth ar ei choes.

**CYDYMDEIMLO**
Fel Eglwys ac Ardal, cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mrs. Nancy Hughes o golli ei hannwyl fab y Parchedig Raymond Hughes. Mae atgofion rhai ohonom amdano yn mynd yn ôl i'r adeg pan oeddem yn blant gyda'n gilydd yng Nghwm Penmachno; eraill yn cofio Raymond yn byw yn Nhŷ Capel Tabernacl, Conwy, gyda'i dad a'i fam. Colled fawr i ni oll. Cydymdeimlwn yn fawr â Susan a Karen hwythau.

**LLONGYFARCHIADAU**
Dymunwn yn dda i un o ieuenctid Preswylfa sef Amy Garstang, merch Llinos a Paul, sydd wedi cael gradd 2:1 mewn Cynhyrchu Theatr o Brifysgol Bath Spa. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd yn Theatr Newydd Caerdydd ac at y dyfodol.

*Gohebydd – Eirian Jones*

## Ebeneser, Dolgellau

**CYMANFA**
Cynhaliwyd Cymanfa Undebol Dolgellau yng Nghapel Ebeneser ar 14 Mehefin, o dan arweiniad Mr Iwan Parry; bu'n achlysur llwyddiannus iawn.

**GWELLHAD**
Dymunwn yn dda i Mrs Peggy Walker, Mrs Ann Kerry, Mr Gwyn Lloyd Jones a Mr Wyn Meredith a fu'n cael triniaeth mewn ysbytai yn ddiweddar.

*Gohebydd - Gwyneth Meredith*



# CNOI CIL

gan GWYNDAF ROBERTS

Un o broblemau mawr y Methodistiaid cynnar oedd cael lle priodol i gyfarfod ar gyfer seiat a gwasanaeth crefyddol. Mae hanes ein cyndeidiau yn y ffydd yn frith o enghreifftiau o bobol oedd yn barod i ganiatáu i'w cartrefi gael eu defnyddio i addoliad, a hynny yn wyneb erledigaeth chwyrn iawn ar adegau. Mae sôn am rai yn cyfarfod mewn tai gwair a stablau tra bo eraill yn fodlon addoli yn yr awyr agored. Mae'n anodd i ni heddiw amgyffred dewrder yr addolwyr cynnar hyn, ond digon yw dweud y collodd rhai eu bywydau wrth arddel eu ffydd yn gwbl agored.

Oddeutu dau gant a hanner o flynyddoedd yn ôl mewn tref ddiwydiannol, fe fu'r Methodistiaid yn ffodus i gael defnyddio hen adeilad a fu'n ffatri ar un adeg. Adeilad gwael oedd heb oleuni yn dod i mewn iddo ond llwyddwyd i wneud meinciau a phulpud a gosod lampau olew hwnt ac yma ar y muriau. Byddai'r capel hwn yn orlawn adeg yr oedfaon gyda'r hen a'r ifanc yn gwasgu i mewn iddo. Roedd y pen blaenor yn gweithio yn swyddfa perchennog y ffatri a byddai'n adrodd hanes yr achos i'w feistr yn aml. Eglwyswr pybyr oedd y perchennog, ond dros gyfnod, fe deimlai ei fod yn cael ei ddenu gan y Methodistiaid. Oherwydd ei statws yn y gymdeithas, ni allai er hynny ymuno â hwy ond bu'n hael yn eu cefnogi'n ariannol o dro i dro.

Roedd yn arferiad gwneud casgliad at yr achos pob Sul a disgwylid cael ceiniog neu ddimai ar y plât gan bawb. Un Sul, wrth i'r plât fynd o gwmpas, sylwodd y casglwr ar rywbeth od yn digwydd. Roedd bachgen yn y sedd gefn wedi rhoi tair marblen ar y plât. Ar derfyn y gwasanaeth aeth y blaenor at y bachgen a gofyn iddo pam ei fod wedi rhoi rhywbeth mor ddiwerth yn y casgliad. Atebodd y bachgen nad oedd ganddo ef na'i deulu arian o gwbl ond roedd wedi rhoi'r cyfan oedd ganddo yn y plât casglu. Bore dydd Llun adroddodd y pen blaenor yr hanes ond nid chwerthin wnaeth ei feistr ond wylo'n hidl. Dywedodd fod yr hanes am y tair marblen wedi'i gyffroi'n fawr iawn a'i fod am wneud rhywbeth i goffáu'r digwyddiad. Er mawr syndod i'r blaenor, fe wnaeth ei feistr addewid y byddai'n adeiladu capel newydd ar ei gost ei hun. Fe gadwodd ei addewid gan osod y tair marblen yn seiliau'r capel newydd. Tra bu'r capel hwnnw ar ei draed, fel Capel y Tair Marblen a'r bachgen tlawd yr adweinid ef gan drigolion yr ardal.

Mae'n rhyfedd weithiau fel y gall pethau materol a bydol gael effaith annisgwyl ar gapeli. Dwy flynedd yn ôl fe fyddai'r proffwydi mwyaf gwachul wedi datgan y byddai'r achos yn dod i ben yn y dyfodol agos. Ond nid felly y bu.

Mae'r capel mewn pentref gwledig sydd wedi newid yn syfrdanol wedi i ffordd osgoi agor yn ddiweddar. Pentref bach ydyw gyda siop gymunedol, garej fechan ac un capel, lle bu dau. Caewyd yr ysgol sawl blwyddyn yn ôl ac mae'n rhaid i'r trigolion deithio ugain milltir i weld meddyg neu ddeintydd, yn wir, pentref ydyw sy'n ugain milltir o bob man!

Mewn cyfarfod cyhoeddus a alwyd gan y Cyngor Bro, daeth nifer fawr o'r pentref a'r ardaloedd gwledig o gwmpas i festri'r capel i drafod sut y gellid gwella bywydau pob dydd pawb. Ymhlith syniadau eraill gofynnodd rhywun a oedd hi'n bosib cael cyfleusterau bancio yn y pentref. Trysorydd y capel oedd clerc y cyngor a gofynnwyd i hwnnw a fyddai'n gwneud ymholiadau pellach. Fel y digwyddodd roedd y clerc yn adnabod rhywun a chanddo berthynas yn uchel iawn yn un o'r banciau mawr. Mewn byr amser cafwyd gair gyda'r bancwr pwysig ac addawodd ef ymchwilio i'r mater. Wedi mis o oedi fe gysylltodd swyddog o'r banc gan ddweud eu bod yn fodlon darparu banc symudol ar brynhawn Iau bob wythnos ar yr amod y byddai lle priodol i'w osod a chyfleusterau ar gael ar gyfer y gweithwyr.


Gan fod llecyn helaeth ar gyfer parcio ceir gan y capel, fe gafwyd cytundeb pawb i osod y banc symudol ar y tir hwnnw. Roedd y cyfleusterau angenrheidiol yn fwy o broblem ond wedi trafod gyda'r enwad a'r Cyngor Bro, fe gafwyd grantiau sylweddol i addasu'r festri a gosod toiledau newydd ynddo, ac ar yr un pryd uwchraddio'r gegin.

Dwy flynedd yn ôl dechreuodd fan y banc alw am ddwy awr ar ddydd Iau. Gan fod llawer iawn yn manteisio ar y gwasanaeth fe gafodd gwragedd y capel y syniad o ddarparu paned o de a theisen i'r cwsmeriaid. Cyfarfu cyn brifathrawes y pentref, oedd bellach wedi ymddeol, ag un o famau'r fro wrth gael paned un prynhawn Iau, a bellach mae yna Ysgol Sul wedi agor yn y capel a Gwasanaeth Nadolig wedi'i gynnal yn 2014 am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Bellach daw llawer o'r pentrefwyr i'r festri i fwyta pryd canol dydd gyda phawb yn dod â'i fwyd ei hun. Deellir bod yna fwriad i geisio am dystysgrif arlwyo gan y Cyngor Sir gan obeithio y gellir darparu cynnyrch i'w werthu i'r siop gymunedol.

Does yna ddim mwy yn mynychu'r capel nag o'r blaen, ond mae'r aelodau'n teimlo eu bod wedi darganfod pwrpas arall i'w bodolaeth sef bod o wasanaeth i eraill. Pwy a ŵyr pa fendithion eraill a ddaw i'r capel a'r aelodau o fod yn gymwynaswyr a chymdogion da?

## PWYSIG

**Os ydych yn danysgrifiwr sydd yn talu £4 y flwyddyn am eich copi o'r *Gwyliedydd* drwy'r post, a fyddech mor garedig ag anfon eich taliad at Mr Robin Jones erbyn DIWEDD AWST fan hwyraf oni wnaethoch hynny eisoes. Diolch i bawb sydd wedi cynnwys eu taliad gyda rhoddion i'r *Gwyliedydd*.**




## GWEITHREDU DROS BLANT

| | |
|---|---|
| Capel Bathafarn, Rhuthun | 31.50 |
| Capel Shiloh, Tregarth | 50.00 |
| Gwyneth Ellis, Bebington | 20.00 |

**Gyda diolch unwaith eto am bob cyfraniad**
*– Robin Jones*

# CYNLLUN EFE

gan y Parchedig JOHN PRITCHARD

**'Beth yw Cynllun Efe?'**

Mae deng mlynedd ers i'r syniad o gael gweithiwr ieuenctid i eglwysi'r ardal hon gael ei wyntyllu. Yr 'ardal' yw dalgylch papur bro *Eco'r Wyddfa* yn Arfon. Roedd yr ymadrodd 'bro'r Eco' yn gyfarwydd, a bathwyd yr enw 'Cynllun Efe' am mai'r nod o'r cychwyn oedd cyflwyno'r **E**fengyl i **F**ro'r **E**co, ac yn arbennig i ieuenctid y fro.



*Hogia CIC Llanberis, enillwyr Cwpan CIC 2014*

Gwahoddwyd holl eglwysi'r ardal o bob enwad i fod yn rhan o'r fenter, a ffurfiwyd pwyllgor a fu'n gweddïo, cynllunio a hel arian am dair blynedd a hanner cyn penodi Andrew Settatree yn weithiwr ieuenctid. Dechreuodd Andrew ei waith ddechrau Hydref 2008. Daeth atom o Awstralia, lle bu'n gweithio am flwyddyn; ond yn Hwlffordd y'i maged. Roedd wedi dysgu'r Gymraeg wedi gadael ysgol yn benodol er mwyn cyflwyno'r Efengyl i'w gyd-Gymry. O fewn ychydig wythnosau, roedd Andrew yn rhugl yn yr iaith ac wedi ymgartrefu'n braf yn ein plith.



*Andrew Settatree*

Mae'n gwasanaethu'r eglwysi trwy gynnal clybiau CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol); arwain a chyfrannu at oedfaon; helpu ysgolion Sul; a threfnu digwyddiadau fel clybiau gwyliau a gornestau chwaraeon ac ati. Mae hefyd yn gwasanaethu holl ysgolion cynradd y fro trwy arwain gwasanaethau neu gyfrannu at wersi addysg grefyddol; ac yn cynnal clwb amser cinio (CICinio) a chyfrannu at wersi addysg grefyddol yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Yn wreiddiol, sicrhawyd nawdd ariannol am dair blynedd, ond rydym yn ddiolchgar am y nawdd ariannol sydd wedi ein galluogi i barhau i gynnal y swydd am yn agos i 7 mlynedd erbyn hyn. Mae hynny oherwydd haelioni enwadau (yn genedlaethol neu ranbarthol, yn cynnwys yr Eglwys Fethodistaidd), eglwysi, unigolion, cynghorau cymuned, a sawl ymddiriedolaeth. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu Andrew hefyd yn gwasanaethu Trobwynt, sy'n gwneud gwaith tebyg yn Llŷn ac Eifionydd.

Gweddïwch dros Andrew a'i waith yn ein plith. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth i waith Cynllun Efe.

# DEFOSIWN

gan y Parchedig J. BRYN JONES

**"Yr oedd gair Duw'n mynd ar gynnydd. Yr oedd nifer y disgyblion yn Jerwsalem yn lluosogi'n ddirfawr, a thyrfa fawr o'r offeiriaid hefyd yn ufuddhau i'r ffydd" (Actau 6:7)**

Wrth feddwl pa bwnc i ysgrifennu amdano, cofiais am ddau ddigwyddiad neu ddathliad yn ymwneud â Chymru: y cyntaf yw hanes y ferch ifanc o Lanfihangel-y-Pennant ger Abergynolwyn, a gerddodd chwe milltir ar hugain i'r Bala yn y gobaith o brynu Beiblau gan y Parchedig Thomas Charles (1735-1814). Arbedodd ei henillion prin dros gyfnod o chwe mlynedd i dalu amdanynt ond pan gyrhaeddodd y Bala, cafodd siom pan ddywedwyd wrthi fod pob copi wedi'i werthu. Sylwodd y Parchedig Charles ar ei brwdfrydedd ac aeth ati i holi rhai o'i gyfeillion - a llwyddodd i ddod o hyd i gopïau i Mary Jones a'i theulu. Ychydig feddyliodd Mary a Thomas Charles eu bod wedi cychwyn rhywbeth a fyddai'n lledaenu yn fyd-eang, er mor syml a bychan ydoedd ar y pryd. Yn ystod ymweliad â Llundain, soniodd Thomas Charles wrth rai o'i gyfeillion am yr hyn a ddigwyddodd yn y Bala, a bod angen mawr am Feiblau yng Nghymru. O ganlyniad, sefydlwyd yr hyn a elwid bryd hynny yn 'Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor'.

Meddyliais am y ddameg lle mae'r Iesu'n dweud fod Teyrnas Nefoedd yn debyg i hedyn mwstard; mae'n dechrau yn fychan ond yn tyfu mewn amser i fod y goeden fwyaf o'r holl lysiau (Math. 13:13). Felly hefyd y tyfodd gweithred fechan a syml Mary Jones a Thomas Charles, gan ledaenu i bellafoedd byd. Os ydym ni yma yng Nghymru yn rhoi rhy ychydig o sylw i neges yr Ysgrythurau, mae pobl Tsieina, Fietnam, Nepal a gwledydd tramor eraill yn newynu ac yn dyheu am Air y Bywyd. A yw'n syndod bod ein Cristnogaeth yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Gyfunol yn y cyflwr y mae ynddo, o ystyried cyn lleied o sylw a roddwn i'r Beibl ac i weddi? Onid oes perygl hefyd ein bod yn rhoi mwy o bwyslais ar bregethu ar y Sul, yn hytrach na chynnal mwy o Ddosbarthiadau Beiblaidd a Chyfarfodydd Gweddi, mewn gair Trefniadau Lleol? O ran diddordeb, cyn i mi ymuno â'r Awyrlu ym 1942, bûm yn gweithio am oddeutu blwyddyn yn fferm y Pennant, ger cofgolofn Mary Jones. Sefais o'i blaen droeon a mynychu'r eglwys fechan i dderbyn y Cymun Sanctaidd.

Yr ail ddigwyddiad a enynnodd fy sylw yw stori'r Mimosa yn gadael Lerpwl gant a hanner o flynyddoedd yn ôl, yn llawn o deuluoedd oedd am ddechrau bywyd newydd ym Mhatagonia. Bu farw rhai yn ystod y fordaith a rhai hefyd ar ôl cyrraedd Porth Madryn; buan iawn yn wir y sylweddolodd y cwmni fod y ddarpariaeth ar gyfer yr anturiaeth yn gwbl annigonol. Rhaid oedd llochesu mewn ogofâu ar y cychwyn, yna colli llawer o chwys i wella cyflwr ac ansawdd y tir. Drwy fawr ymdrech y llwyddodd yr anturiaeth gymaint ag y gwnaeth dros y blynyddoedd. Erbyn heddiw, gwelwyd gwelliannau o ran amaethyddiaeth, addysg, diwylliant a masnach. Diolch hefyd am y trefniadau i gyfnewid athrawon mewn colegau a phrifysgolion, a'r awydd i wella'r berthynas rhyngom. Caiff amryw y fraint hefyd o dreulio gwyliau gyda'n brodyr a'n chwiorydd a rhai yn cyfarfod â pherthnasau pell am y tro cyntaf.

Ac onid oedd y Duw sy'n 'llond pob lle ac yn bresennol ymhob man' (CFf 76), yn bwrw ei gysgod drostynt ac yn eu bendithio mewn sawl modd. Ydyw, mae'r digwyddiad hwn yn werth ei gofio a'i ddathlu.

**A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13**

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Salem, Rhyd y Foel

**PERERINDOD**
Diolch i Miss Kathleen Williams am drefnu bws mini o'r ardal hon i ymuno â'r bererindod i Eglwysbach.

**LLONGYFARCHIADAU**
Dymunwn longyfarch Mr a Mrs Bobby Roberts, Tan'r Ogo, ar enedigaeth ŵyr sef Ellis Francis Roberts, mab i Huw a Sue Roberts a brawd bach i Ffion.

**Y GYMANFA YSGOLION**
Cynhaliwyd y Gymanfa Ysgolion ym Methel Prestatyn. Cymerwyd rhan gan blant ysgol Sul Bethel a chafwyd cyfraniad hefyd gan Beth a Steffan Roberts o Salem. Diolch i aelodau Bethel am y croeso.

**PROFEDIGAETH**
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth un o'n cyn-weinidogion sef y Parch Raymond Hughes, Llanrhaeadr ym Mochnant. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu.

*Gohebydd – Siân Price*

## Ebeneser, Caernarfon

**ER COF ANNWYL**
Ar ôl misoedd blin o ddioddef, bu farw **Betty Pritchard**. Roedd Betty yn berchen ar hiwmor iach ac yn garedig dros ben. Yn enedigol o Benisarwaun, hoffai sôn am ei gwreiddiau yno a'i chapel. Fel eglwys cydymdeimlwn yn ddwys â'i merched Shân a Bethan a'r teulu oll. Talwyd teyrnged iddi gan ein gweinidog, a arferai ymweld â hi yn ddyddiol, ei bresenoldeb o gysur amhrisiadwy.

Bu'n fraint i ni fel eglwys gael cwmni **Merfyn Hughes Roberts**, a fu farw yn ddiweddar. Gŵr bonheddig, cymwynasgar, doeth a deallus, a roddodd wasanaeth arbennig i Ebeneser ac i'r Gylchdaith. Enillodd sawl anrhydedd yn ei alwedigaeth fel pensaer yn ogystal â sawl gwobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a bu'n Brif Bensaer i Gyngor Sir Gwynedd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod Gwenda, ei blant Gareth, Jane a Gomer a'i chwaer Megan.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau arbennig i Martha Williams ar ddathlu ei phen-blwydd yn ganmlwydd oed. Mae Martha Williams yn chwaer i'r diweddar Barchedig O. Prys Davies.

Llongyfarchiadau calonnog i Gwenan Duffy ar dderbyn gradd Dosbarth 2:1 yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor; i Erin Owain, wyres i Eira Owain, ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Leeds; ac i Osian Dwyfor Jones, ŵyr Elen Jones, a enillodd radd Dosbarth 2:1 mewn Fferylleg ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl.

*Gohebydd – Branwen L. Edwards*

## Ardal Bathafarn

**PROFEDIGAETH**
Ar ôl cystudd hir a blin a ddioddefodd yn ddewr, bu farw **Gwynfryn Jones,** un a fu'n aelod a swyddog ffyddlon yng nghapel Bathafarn am flynyddoedd lawer. Â'i wreiddiau'n ddwfn yn nhref Rhuthun, meddai ar stôr o wybodaeth werthfawr am hanes y fro. Bu'n gweithio am flynyddoedd yn siop groser adnabyddus J.P. Williams a bu hefyd yn yrrwr i fan y Llyfrgell. Arweiniwyd ei angladd gan y Parchedig Martin Evans-Jones, gyda chymorth y Parchedig Dilys Jones, Amwythig, ffrind agos i'r teulu. Mae ein cydymdeimlad yn fawr at y teulu.

Cydymdeimlwn yn ogystal â Medwyn a Meryl Davies a phawb o deulu'r ddiweddar **Mair Davies**. Yr un yw ein cydymdeimlad at Gwenllian Roberts Knighton o golli ei phriod y **Parchedig Donald Knighton**; bu'r ddau yn hynod o ffyddlon a theyrngar i ni tra'n byw yn Nhŷ Bathafarn a bu Donald hefyd yn gofalu am yr Eglwys Bresbyteraidd Saesneg yn y dref.

Gyda gofid mawr y clywsom am farwolaeth y Parchedig Raymond Hughes ac anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at ei briod Susan a'r teulu.

**PERERINDOD EGLWYSBACH**
Cawsom ddiwrnod i'w gofio ar y bererindod eleni. Diolch i gyfeillion caredig Eglwysbach am y croeso. Ar ddiwedd y pnawn cawsom gyfle i ymweld â Chanolfan Fwyd Bodnant a mwynhau cymdeithasu uwchben pryd o fwyd blasus. Roedd yn gyfle gwych inni ddod at ein gilydd fel Ardaloedd a Thalaith. Diolch i Robin Jones am ei drefniadau gofalus a diolch i Meta am drefnu bws mini i'n hardal ni.

**Y GYMANFA**
Tro Gwyddelwern oedd trefnu'r Gymanfa eleni a'r arweinydd oedd Eirlys Dwyryd. Arweinydd y Gweithgareddau oedd Steffan, Tŷ Ucha'r Llyn – a llongyfarchiadau iddo hefyd ar ei benodi'n athro yn Ysgol Cerrig y Drudion. Roedd y defosiwn yng ngofal Nan, Siân a Tudur, Gwyddelwern a chafwyd cyfraniadau gan Marian ac Elwyn, Rehoboth ac Elizabeth, Bathafarn. Lynn Hughes, Corwen, sydd yn gofalu am gasgliadau'r Genhadaeth a da yw deall fod cyfraniadau'n parhau i gael eu derbyn. Mwynhawyd te blasus drwy garedigrwydd Mairwena ac aelodau Ardal Bathafarn; rhoddwyd blodau gan Elizabeth, Meta a Bob. Rhoddwyd casgliad y Gymanfa i Gweithredu dros Blant.

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Daeth cynulleidfa dda i'r gwasanaeth arbennig a gynhaliwyd yn y Tabernacl; da yw cael cydaddoli fel eglwysi yn Rhuthun. Paratowyd y rhaglen gan Emrys Wynne a chafwyd cyflwyniad dwyieithog gan y Parchedigion Martin Evans-Jones a Morus P. Morris.

**DATHLU**
Dymuniadau gorau i Olwen Griffiths sydd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ym mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau i Meta a Trevor ar enedigaeth eu gor-ŵyr cyntaf sef Patrick James, mab James a Hannah, Y Waen, Llanelwy, ac i Alison a Paul ar ddod yn nain a taid am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau calonnog i Lisa (wyres y diweddar Barchedig Cyril a Tegwen Lloyd) a Guto ar enedigaeth Casi Mallt ac i Siân ac Alan Humphreys ar ddod yn nain a taid.

**DIOLCH**
Hoffem ddiolch yn gywir i'r Parchedig Gwilym O. Jones am ei ffyddlondeb dros y blynyddoedd; ni fydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd y tu allan i gylch Croesoswallt mwyach. Dymuniadau gorau iddo ef a'i briod Margaret Jones.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

## Horeb, Croesoswallt

**ER COF ANNWYL**
Dridiau ar ôl iddo gyrraedd ei benblwydd yn 90 oed, bu farw **Mr Llewelyn Roberts**, Bridgeman Road. Ymddeolodd ef a'i chwaer i'r dref ar ôl bod yn ffermio yn Priddbwll Llansilin. Roedd yn aelod ffyddlon yn Horeb, ac yn gefnogol i bob gweithgaredd Cymreig yn y dref. Fe welwn ei golli yn fawr iawn. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth. Ychydig fisoedd cyn cyrraedd y cant oed, hefyd, bu farw **Mr Trevor Morris**. Yn ŵr diwylliedig iawn a darllenwr brwd, roedd hefyd yn hoff o chwarae bowls. Bu'n aelod o gapel Hermon nes iddo gau ac wedyn yn ffyddlon yn Horeb. Cydymdeimlwn yn gywir iawn â'r teulu. Trist oedd clywed am farwolaeth **Mrs Dilys Morris,** gynt o Gefnblodwel. Cydymdeimlwn â'i phriod, Mr Eric Morris, a'r teulu oll. Cydymdeimlwn yn ogystal â Mrs Beryl Roberts, Maserfield, yn y brofedigaeth o golli ei mab, y diweddar **Tudor Moreton**.

**Y PARCHEDIG RAYMOND HUGHES**
Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf at deulu'r diweddar Barchedig Raymond Hughes. Cofiwn amdano fel ffrind i bawb, pregethwr grymus ac un oedd â hiwmor iach a sirioldeb heintus.

*Gohebydd – Eurwyn Jones*

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Ebeneser, Trefor, Môn

**CYMUN YNYS MÔN**
Ar y Sul cyntaf ym Mehefin, cynhaliwyd Cymun Ynys Môn ym Methel, Amlwch. Er mai cynulleidfa fechan oeddem cafwyd oedfa fendithiol o dan ofal y Diacon Stephen Roe. Gwnaed casgliad tuag at Gartref Henoed Brwynog, Amlwch. Yr organydd oedd Mr Len Thomas. Yn dilyn y gwasanaeth cawsom de blasus a chyfle i sgwrsio. Diolch i ffrindiau Amlwch am eu croeso.

**CYFARFOD PREGETHU**
Cynhaliwyd ein cyfarfod pregethu blynyddol ar nos Iau Mehefin 11. Cafwyd oedfa fendithiol o dan ofal y pregethwr gwadd sef y Parchedig Hugh Pritchard, Llangefni. Fe'i croesawyd ef a nifer o gyfeillion eraill gan y Diacon Stephen Roe. Yr organydd oedd Mrs Gwyneth Thomas.

*Gohebydd – Carys Thomas*

## Pisgah, Rhiwlas

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau calonnog i bobl ifanc yr eglwys ar eu llwyddiant yn eu harholiadau gradd ym Mhrifysgol Bangor. Enillodd Heledd Eluned Evans radd LL.B., 2.1; Daron Marged Owens radd B.A. Dosbarth Cyntaf mewn Criminoleg; a Sioned Jones radd B.A. 2.1 mewn Criminoleg. Dymunwn bob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Gareth Williams sydd wedi derbyn tystysgrif am gasglu at y Genhadaeth eto eleni. Da iawn ti, Gareth, am ymgymryd â'r gwaith yma bob blwyddyn.

**CYDYMDEIMLO**
Ar 9 Mehefin daeth y newydd trist am farwolaeth Griffith Owen, Frondeg, Rhiwlas, (gynt o Rachub), yn fuan wedi iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Brwydrodd yn hir yn erbyn gwaeledd blin, a ddioddefodd gyda sirioldeb. Un o ffyddloniaid yr Eglwys ym Mhisgah ydoedd ac yn Swyddog Eiddo dros y blynyddoedd. Yn 1971 cymerodd y cyfrifoldeb o fod yn Arweinydd y Gân a gwnaeth y gwaith yma, gydag urddas, am 25 o flynyddoedd. Roedd yn mwynhau cerddoriaeth a bu'n aelod o Gôr y Penrhyn ac Wythawd Tryfan. Roedd yn Eisteddfodwr brwd, a byth yn colli Eisteddfod yr Urdd na'r Genedlaethol, ble bynnag y caent eu cynnal. Roedd yn ymfalchïo yn llwyddiant eisteddfodol ei ferch Einir a threuliodd oriau lawer yn ei hyfforddi.

Yn ei hanfod, gŵr tawel a diymhongar oedd Griff. Bydd y cof amdano a'r parch oedd gan bobl yr ardal tuag ato, yn aros gyda ni am byth. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Meirwen Owen, ei briod, Einir a Hefin ei fab-yng-nghyfraith – y tri wedi gofalu'n annwyl a diflino amdano yn ei waeledd ac yn enwedig yn ystod y misoedd olaf.

*Gohebydd – Gwyn Jones*

## Saron, Bethel, Arfon

**O'R YSBYTY**
Ein cofion cynhesaf at Mr Dafydd Williams, Stâd Eryri, Bethel, sydd erbyn hyn gartref o Ysbyty Broadgreen, Lerpwl. Cafodd Dafydd lawdriniaeth fawr i'w galon, a da yw ei weld yn cryfhau o ddydd i ddydd. Mae Dafydd yn fawr ei ganmoliaeth i staff Ysbyty

## Ardal Môn ac Arfon





*Ysgol Sul Tregarth*

**MIRI MEHEFIN**
Mwynhawyd Cymanfa Miri Mehefin yn Shiloh, Tregarth, bnawn Sul, Mehefin 28. Arweinydd y pnawn oedd Christine Morris Jones, Tregarth. Wyn Thomas oedd arweinydd y canu gydag organydd Shiloh, D. Wynn Williams yn cyfeilio. Aelodau o Ysgol Sul Shiloh a agorodd yr oedfa gyda chyflwyniad ar thema cymorth i eraill o'n cwmpas.

Rhannwyd tystysgrifau a medalau i'r aelodau fu'n casglu at y Genhadaeth Dramor a Chartref a diolchwyd am bnawn rhagorol iawn gan y Parchedig Gwynfor Williams.

Yna cawsom de parti gwerth chweil a drefnwyd gan rieni a ffrindiau Ysgol Sul Shiloh.



*Ysgol Sul Penisarwaun*

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

Gwynedd ac Ysbyty Broadgreen hefyd am eu gofal a'u caredigrwydd tuag ato fo a'i deulu. Daliwch ati i fendio Dafydd a gobeithio y cewch gyfle i fynd yn ôl at y bwrdd snwcer eto yn fuan iawn.

**I'R YSBYTY**
Dymuniadau da hefyd i Mrs Delyth Williams. Fel y bydd y rhifyn yma o'r *Gwyliedydd* yn mynd i'r wasg, bydd Delyth yn mynd i Ysbyty Maelor Wrecsam am driniaeth i'w throed. Gobeithio y cewch wellhad llwyr, Delyth, ac y byddwch chi'n ôl efo ni yn fuan.

*Gohebydd - RJ*



***Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Horeb, Bae Colwyn, i ddiolch i'r Parchedig Ifor Jones am ei wasanaeth dros gyfnod o 14 mlynedd. Pob dymuniad da am ymddeoliad hapus iddo ef a'i briod, Rhian.***

## Shiloh, Tregarth

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau i Mrs Roma Griffiths sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cofion hefyd at Mrs Eurwen Pennant Lewis, nad yw wedi bod yn dda, ac eraill o blith aelodau Shiloh sydd wedi methu bod gyda ni oherwydd llesgedd a gwaeledd.

**GAIR O DDIOLCH**
Fe hoffai Gwenda Davies ddiolch o waelod calon i blant, ieuenctid a rhieni Ysgol Sul Shiloh a holl aelodau'r capel am y te parti ardderchog, y rhoddion a'r cardiau a dderbyniodd ar ei hymddeoliad o fod yn gofalu am yr Ysgol Sul. Diolch am gael y cyfle i weithio gyda chi i gyd ar hyd y blynyddoedd.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Valerie a David Ellis Jones, Glan Gors, ar ddod yn nain a taid am yr eildro. Ganed **merch fach, Ani Cêt**, i'w mab Dewi a'i wraig Einir yn Llanwnda, chwaer fach i Ela.

Llongyfarchiadau i **Esme Crowe**, ar ennill dwy fedal efydd ym Mhencampwriaeth Nofio Cymru yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i **Morgan Jones**, Pendinas, mab Einir ac Aled Jones, ar dderbyn tystysgrif arbennig ac iPad, am lwyddo i fynychu Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, am bum mlynedd heb golli diwrnod. Cryn gamp, Morgan!

**YR YSGOL SUL**
Bu rhai o aelodau'r Ysgol Sul sef Myfi Celyn, Shwnamis Efans a Nel Mai, yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili.

Llongyfarchiadau i chi eich tair ar eich llwyddiant.

Diolch o galon i aelodau'r Ysgol Sul am arwain gwasanaeth bendithiol yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.

**BEDYDD**
Pnawn Sul, Mehefin 21, dan ofal y Parchedig Philip Barnett, bedyddiwyd Iago Tudor Lloyd Hughes, mab bychan Ffion a Dion, Penrala, Tregarth. Pob dymuniad da i chi fel teulu bach.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

# CROESO I'R DIACON JON MILLER

Cawsom neges gan y Diacon Jon, sydd yn dod i wasanaethu yn Ardaloedd Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd o fis Medi ymlaen. **Hoffai ddweud 'helo' wrth bawb yn Synod Cymru trwy gyfrwng y *Gwyliedydd* ac mae'n edrych ymlaen at gyfarfod â ni i gyd.** Dyma ychydig bach o'i hanes:

Ar hyn o bryd, mae Jon yn gwasanaethu fel diacon yn Eastbourne. Yn Awst eleni bydd ef a'i wraig Rebecca wedi bod yn briod ers 13 mlynedd. Cyfarfu'r ddau yn Aberystwyth pan oeddent yn fyfyrwyr yno. Mae gan Rebecca gysylltiadau cryf â Chymru gan iddi fyw ym Methesda pan oedd yn blentyn. Roedd ei rhieni'n cadw siop yno ar y pryd; maent yn awr yn byw yng Nghydweli. Yn fuan wedi iddynt briodi, symudodd Jon a Rebecca i Bury ac yno y ganwyd eu plentyn cyntaf, Isaac. Roedd Jon yn weithiwr ieuenctid yn Eglwys Fethodistaidd Seedfield. Yn fuan wedyn dechreuodd Hyfforddiant Sylfaen ar gyfer y Weinidogaeth yng Ngholeg Hartley Victoria ac yn ystod yr amser hwnnw ganwyd eu merch Elizabeth.

Wedi i Jon ymgeisio'n llwyddiannus i fod yn Ddiacon yn yr Eglwys Fethodistaidd, symudodd y teulu i Sefydliad Queens yn Birmingham ac yna i Ardal Unedig Canol Sussex lle cafodd Jon ei benodiad cyntaf i wasanaethu fel Diacon a lle ganed eu trydydd plentyn, Naomi.

Roedd Jon a Rebecca yn wastad wedi bod eisiau dod yn ôl i Gymru ac felly pan gysylltodd Warden Urdd y Diaconiaid â hwy a gofyn a fyddai Jon yn fodlon dysgu Cymraeg a dod i Gymru, fe atebodd yr hoffai wneud hyn, ar bob cyfri. Mae'n dechrau dod i'r afael â'r Gymraeg a chafodd gyfle i dreulio peth amser yn Nant Gwrtheyrn. Bydd yn ddiolchgar i bawb am eu hamynedd ar y dechrau ac am bob cymorth wrth iddo ehangu ei eirfa.



MARIAN a GWYDDFID PRYS DAVIES

# merched y mans

Pan nad oedd yn beth cyffredin iawn i deuluoedd symud tŷ, roedd y ffaith eu bod yn symud bob pum mlynedd (a chyn hynny bob tair) yn gwneud plant gweinidog Wesle rywfaint yn wahanol. Deuem i adnabod amryw o lefydd ond heb berthyn i'r un, a sylweddoli yn gynnar fod ardaloedd eithaf agos at ei gilydd yn ddaearyddol yn hollol wahanol o ran cymeriad.

Ganwyd ni ein dwy yn Llangollen, ond yn Ffynnongroyw y daethom gyntaf yn ymwybodol o'n hamgylchfyd. Roedd ein cartref, Llys Myfyr, ar allt serth yn codi o'r pentref i Benyffordd ac ucheldera u Sir y Fflint; wrth edrych i lawr gwelem y ffordd fawr yn rhedeg o'r Rhyl i Dreffynnon ac yn gyfochrog â hi y rheilffordd o Gaergybi i Lundain. Byddai'r 'Irish Mail' yn rhuthro heibio gan adael sŵn gwag ar ei ôl. Gwelem Lerpwl o bell.

Mae'n siŵr fod awdurdodau'r Eglwys Fethodistaidd wedi gweld yn dda i beidio â symud ei gweinidogion yn ystod yr Ail Ryfel Byd a dyna pam y buom yn Ffynnongroyw am chwe blynedd. Cawsom blentyndod hapus yn chwarae yn yr ardd ac mewn cae cyfagos ond roeddem yn synhwyro ofn a phryder blynyddoedd y rhyfel mewn gwahanol ffyrdd heb ei ddeall o gwbl. Gwrandawai ein rhieni'n astud ar bob newyddion ar y radio a chlywem yr oedolion yn dweud pethau fel "mae Lerpwl wedi ei chael hi heno."

Yn Ffynnongroyw byddem yn deffro yn y bore bach i sŵn traed esgidiau hoelion y glowyr yn cerdded i shifft gyntaf Glofa'r Parlwr Du. Ar fore Sul aem efo Mam i gapel Bethania, a'r capel yn llawn yn wastad. Byddai'r canu'n ardderchog. Roedd canu, cystadlu a cherddoriaeth yn rhan hanfodol o ddiwylliant Ffynnongroyw a Glofa'r Parlwr Du. Un o unawdwyr y Côr Plant ar y pryd oedd Gwen, gweddw'r diweddar Rhys Jones ac aelod arall oedd Margaret, gwraig y Parch O.E. Evans. Ei brawd hi, y diweddar Barch Joseph E. Williams, oedd y cyfeilydd pan fyddai gartref am ysbaid o'r Llu Awyr.

Cymdeithas glòs oedd yn y pentref a llawer o'r cylch yn perthyn i'w gilydd. Byddai cyfoedion ysgol yn galw heibio i berthnasau iddynt ar y ffordd adref o'r ysgol, felly penderfynodd un ohonom fabwysiadu perthynas ei hun gan ymweld â gwraig weddw garedig yn y pentref tua hanner awr wedi tri bob dydd. Pan ddaeth ein rhieni i wybod, ofnwn gael drwg am ddweud celwydd, ond rhyw wenu a wnaethant. Mae'n siŵr eu bod hwythau'n gweld eisiau teulu estynedig, yn y dyddiau di-ffôn a di-gar hynny. Y ddolen gydiol drwy flynyddoedd y symud oedd ein teulu ni a ffermydd teuluoedd ein rhieni yn Nyffryn Tanat ac yng Nghricieth, lle byddem yn mynd i dreulio gwyliau'r haf.

Cyn dyfodiad ceir, cerdded neu feicio i'w cyhoeddiadau y byddai'r gweinidogion, ar hyd ffyrdd serth iawn. Cofiwn un tro, a ninnau'n o fach, weld ein tad a gweinidog arall y Gylchdaith, y Parch Rheinallt Lloyd Jones, yng nghanol pentyrrau o lyfrau yn stydi Llys Myfyr. Llyfrau ym mhob twll a chornel a hwythau'n brysur yn penderfynu pa lyfr fyddai'n addas i bawb o'r dwsinau plant ar y Gylchdaith fu'n casglu at y Genhadaeth Dramor. Buom yn dyfalu wedyn sut roedd y llyfrau'n cyrraedd pen eu taith, i eglwysi'r Gylchdaith ym





Mostyn, Gronant, Penyffordd, Gwesbyr, Gwaunysgor, Trelogan, Trelawnyd, y Cwm a Llanasa. Enwau yn unig oedd y llefydd hyn i ni ar y pryd gan nad oedd car ar gael na bws i dopiau Sir y Fflint.

Ar ddydd Iau olaf mis Awst 1945 daeth yn amser inni symud, yn ôl y drefn, i fod yn ein cartref newydd yn Ninbych erbyn y Sul cyntaf ym mis Medi. Cael croeso a the gan oruchwylwyr y Gylchdaith newydd – ond ni'r plant yn dyheu i'r ddefod ddod i ben er mwyn inni gael archwilio ein cartref newydd. Tŷ mawr iawn oedd Llys Meddyg, Dinbych, sydd erbyn hyn yn gartref nyrsio yn y dref. Roedd yn nefoedd i blant gan fod yno ystafelloedd helaeth ac atig fawr yr oedd angen ysgol i ddringo iddi. I lawr y grisiau roedd modd mynd o'r cyntedd drwy'r gegin, y gegin gefn a'r pantri yn ôl i'r cyntedd. Digon o lefydd i guddio! Y tu allan roedd gardd ffrynt, glaswellt a choed yn yr ochr.

Yr oedd lleoliad y tŷ, hefyd, yn ddelfrydol i blant – yn union gyferbyn â'r stesion, a Llys Meddyg fel rhyw ystafell aros ychwanegol, lle galwai pob math o bobl ar eu hynt i ymweld, nid yn unig â chapeli a chymdeithasau'r dref, ond â'r ysbyty meddwl neu sanatoriwm Llangwyfan. Cofiwn y nwy a oleuai ystafelloedd y tŷ. Pan ddeuai rhywun i weld ein tad yn y stydi byddai'n rhaid diffodd y nwy yn y gegin gan nad oedd digon o gyflenwad i'r ddwy ystafell!

Ar fore Sul, byddem yn mynd i gapel Salem yng ngwaelod y dref ac ar bnawn a nos Sul i Bendref. Byddem yn mynd i'r Band of Hope ar nos Lun a dysgu canu efo'r Curwen Modulator o dan gyfarwyddyd Mr Herbert Lloyd Jones, Fferm y Lodge. Cofiwn hefyd arwyddo dirwest yno. Byddai cyfarfodydd ychwanegol i baratoi ar gyfer y Cyfarfod Ysgolion a Chymanfa Ganu'r tair cylchdaith sef Dinbych, Rhyl a Ffynnongroyw. Yno caem gyfarfod hen ffrindiau o Gylchdaith Ffynnongroyw.

Digwyddodd un o aeafau oeraf y ganrif yn ystod ein cyfnod yn Ninbych. Yr ysgol gynradd yn cau am dair wythnos yn 1947! Ninnau'n treulio dyddiau bwy'i gilydd yn sledio yn yr eira a'r rhew. Gwnaeth un neu ddau o amgylchiadau eraill yn ystod y pum mlynedd argraff ar ein cof hefyd. Cynhaliwyd Cymanfa Gymraeg yr Eglwys Fethodistaidd yn Ninbych, pan ddaeth cynrychiolwyr yno o dair talaith Cymru yn ogystal â'r Gynhadledd Saesneg. Uchafbwynt yr achlysur hwnnw oedd ymweliad y Parchedig Ddr Leslie Weatherhead, a bregethodd yn y Capel Mawr, a ninnau'r plant yn eistedd ar risiau'r oriel – y capel dan ei sang. Yn y Gymanfa hon, fe ordeiniwyd pedwar o weinidogion i waith yr Eglwys Fethodistaidd Gymraeg. Y Parchedigion J Haines Davies, Emlyn Williams a Trefor Mechain Thomas oedd tri ohonynt. Tybed pwy all gofio'r pedwerydd?

Os mai argraff o le cerddorol adawyd arnom yn Ffynnongroyw, lle llenyddol iawn oedd Dinbych, yn rhannol oherwydd dylanwad Gwasg Gee yn y dref a phresenoldeb beirdd a llenorion fel Gwilym R Jones a'r Dr Kate Roberts. Yn Ysgol Gynradd Frongoch byddai Miss Gaynor Roberts y brifathrawes yn sôn am enwogion Cymru, gan ddweud wrthym fod gennym sir i ymfalchïo ynddi yn Sir Ddinbych, a fu'n gartref i'r Esgob William Morgan, William Salesbury, Gwilym Hiraethog, Edward Jones Maes y Plwm, Twm o'r Nant ac eraill. Yn yr Ysgol Ramadeg hefyd caem wersi Cymraeg yn y ffrwd Gymraeg.

Yn 1950 daeth terfyn ar ein gwersi Cymraeg oherwydd symudasom o Ddinbych, gan adael llawer o ffrindiau da ar ôl. Tipyn o hunllef ieithyddol, cymdeithasol a diwylliannol oedd symud i Lerpwl pan oedd y naill yn ddeuddeg a'r llall yn bedair ar ddeg oed. Ond cawsom gwmni llawer o Gymry yn eglwysi, cymdeithasau ac aelwydydd Lerpwl, a fu'n gymorth mawr inni ymgynefino â'r ddinas. Cymerodd rai blynyddoedd inni ymgartrefu yno ond ymhen amser daethom yn hoff o Lerpwl.

# ‘DAETHOM YMA I AROS’

gan Gwenda Davies

Ynghanol holl fwrlwm dathlu cant a hanner o flynyddoedd sefydlu’r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, diddorol i mi oedd canfod mai arwyddair y dathlu yn y Wladfa ei hun yw ‘daethom yma i aros’. Ac mae ’na lawer o wir yn yr arwyddair. Tybed a oes yn ein holl hanes fel cenedl antur mor arwrol â hon? Dyna gwestiwn ofynnodd Huw Edwards yn ei ffilm ar Batagonia a welwyd ar y teledu yn gynharach eleni. Ond tybed faint o ysgolion Cymru sy’n cydio yn stori’r anturwyr cynnar ac yn magu brwdfrydedd yn y disgyblion i ddysgu mwy am ddewrder y gwladfawyr cyntaf. Dim ond gofyn?






Pryd glywsoch chi gyntaf am daith y Mimosa? Gallaf ddweud yn union ym mha flwyddyn y clywais i gyntaf am yr ymfudo, gan fy nheulu agosaf. 1955 oedd y flwyddyn a minnau’n naw oed ar y pryd. Roeddwn yn aros yng nghartref fy nain a nhaid yn Berwynfa, y Bala. Roedd Nain wedi ei chladdu ers 1953, yn y bedd teuluol ym mynwent yr Hen Gapel yn Llanuwchllyn. Yn haf 1955 dadorchuddiodd fy mam, Myfanwy Rhys Owen, gofeb i’w hen daid, Michael Daniel Jones ger mynedfa ei gartref, Bodiwan, yn y Bala. Cefais i a fy mrawd hynaf Alun fynd i’r dadorchuddio a chael tynnu ein lluniau gyda taid, Ellis Evans, fy mam a J.E. Jones, Melin y Wig. O’r diwrnod hwnnw roedd antur Patagonia yn rhan bersonol o fy mywyd i ac mae wedi parhau felly hyd heddiw. Mae dim ond clywed yr enw yn deffro rhyw ramant a chwilfrydedd yn y meddwl. Gwireddwyd fy mreuddwyd o ymweld â Dyffryn Camwy a’r Andes yn 2005 ac mae’r profiad yn dal yn fyw iawn yn y cof.

Ychydig iawn, iawn o gysylltiad fu rhyngom fel teulu a’n perthnasau agos yn y Wladfa tan y flwyddyn 1965. Nid oedd neb o’r teulu agosaf ar y Mimosa yn gadael Lerpwl ym Mai 1865, ac yn sefyll ar y doc yn dymuno’n dda i’r fordaith yr oedd fy hen-hen daid Michael Daniel Jones a’i briod Anne Lloyd Jones. Rhai blynyddoedd yn ddiweddarach yr ymfudodd eu dau fab yno sef Llwyd ap Iwan, oedd yn dirfesurydd a Mihangel ap Iwan oedd yn feddyg. Ac yntau’n henwr, fe aeth Michael D. Jones yno ar ymweliad byr. Arhosodd ei ddwy ferch yng Nghymru sef Myfanwy erch Iwan a Maironwen erch Iwan ac rwyf i yn un o ddisgynyddion Myfanwy. Dywedai fy nain yr hanes wrthyf amdani’n gadael ei chartref yng Ngholeg Bala-Bangor ac yn ymgartrefu yn y Bala i ofalu am ei nain, sef Anne Lloyd Jones, fu fyw ymhell i’w nawdegau.

Tristwch mawr i mi oedd na chafodd fy mam gyfarfod na chysylltu â’i theulu agosaf ym Mhatagonia gan y bu farw yn 1959. Yn 1965, blwyddyn y canmlwyddiant, y gwnaed y cysylltiad cyntaf pan aeth chwaer fy mam, Eluned Bere, gyda’r fintai fawr gyntaf o Gymry i ymweld â’r Wladfa ers mordaith y Mimosa. Yn ddiweddarach, yn y saithdegau, daeth Luned Gonzales a’i chwaer Tegai Roberts, wyresau Llwyd ap Iwan, o’r Gaiman yn Nyffryn Chubut draw i Gymru ac i aros gyda ni fel teulu. Ers hynny buom yn cysylltu’n rheolaidd drwy lythyr, galwad ffôn ac e-bost. Braint oedd cael croesawu Luned Gonzales yn ôl yng Nghymru yn ystod yr wythnosau diwethaf ar gyfer dathlu’r cant a hanner. ‘Mae gwaed yn dewach na dŵr,’ medden nhw. Ac mae’n hollol wir. Mae bod yn ei chwmni fel bod yng nghwmni un rwyf wedi’i nabod erioed.

Ynghanol yr holl fwrlwm Patagonaidd eleni roedd y dathliad yn Lerpwl yn un o’r uchafbwyntiau i mi. Roedd bod ynghanol oddeutu pum cant o dyrfa yn y cyfarfod dathlu yn rhywbeth emosiynol y cofiaf amdano’n hir iawn. Cafwyd siaradwyr fel Huw Edwards, Carwyn Jones, Dafydd Wigley, y Parchedig D. Ben Rees, yr archdderwydd Christine James a llysgennad yr Ariannin yn y Deyrnas Unedig. Ond yr uchafbwynt oedd cael dathlu gyda fy nheulu a chofio am aberth a dewrder y rhai a fentrodd ac a wrandawodd ar freuddwyd Michael D. Jones. Braint oedd bod yn rhan o’r dyrfa welodd ddadorchuddio’r gofeb hardd i daith y Mimosa, a adawodd ddociau Lerpwl ym Mai 1865. Dwi’n falch fod fy wyrion ifanc, Ifan Rhys, Myfi Celyn, Nel Mai a Mali Non wedi bod yn dystion i’r dathlu. Nhw fydd yno, gobeithio, ymhen hanner can mlynedd arall yn dathlu dau can mlynedd mordaith y Mimosa. ‘Daethom yma i aros’!

## NEWIDIODD Y GOLAU

gan Elwyn Parry

Cyrhaeddodd gyrrwr at oleuadau traffig pan oedd y goleuadau ar fin troi. Stopiodd y car yn y goleuadau, fel y dylai wrth gwrs, er y buasai wedi gallu mynd trwodd petai wedi cyflymu rhyw ychydig. P’run bynnag, roedd gyrrwr arall y tu ôl iddo ac aeth hwnnw’n gynddeiriog. Canodd ei gorn fel peth gwirion, yna agorodd y ffenest a rhegi i’r cymylau. Ynghanol yr helbul, daeth plisman at y ffenest a gofynnodd i’r gyrrwr ei ddilyn i orsaf yr heddlu. Yno cafodd ei holi’n drwyadl, cafodd ei archwilio, tynnwyd ei lun ac fe’i rhoddwyd mewn cell tra byddai’r heddlu’n cwblhau eu hymholiadau.

Ymhen rhai oriau, fe dderbyniodd ymddiheuriad. Eglurodd yr heddwas iddo ei weld wrth y goleuadau; fe wyddai na wnaeth y gyrrwr o’i flaen ddim i’w gynddeiriogi yn y fath fodd. “Beth oeddwn i i’w wneud o’r sefyllfa?” meddai. “Mi sylwais ar sticer ar ffenest gefn eich car yn dweud ‘What would Jesus do?’ ac arwydd pysgodyn hefyd, yn ogystal ag arwydd ‘Follow me to Sunday school’. Yr unig beth allwn i ei feddwl oedd bod y car wedi ei ddwyn.”

### Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd:

**AWST**
2 Yn yr Eisteddfod Genedlaethol
9 Gwyliau
16 Gwyliau
23 Morgannwg
30 Gŵyl Greenbelt

**MEDI**
6 Glannau Meirion a Dyfi
13 Glannau Maelor
20 Ceredigion
27 De Gwynedd

# KAREN *mewn cwfaint*

gan KAREN OWEN



Mae rhai'n chwerthin, eraill yn crechwenu, ac ambell un yn gwgu, synnu neu'n gwaredu pan fydda' i'n dweud imi dreulio bron i hanner blwyddyn yn byw mewn cwfaint yng nghanol cyfandir Ewrop.

KO, yr hac sydd eleni'n cyrraedd ugain mlynedd o yrru rhwng un dedlein papur newydd a'r llall, yn ei chael ei hun yng nghanol nýns. A Karen, yr hogan o Ben-y-groes, Dyffryn Nantlle, sy'n hen gyfarwydd â Chymraeg y rhegfeydd, yn landio'i hun mewn cell ddeuddeg troedfedd wrth ddeg ar goridor cul ar chweched llawr adeilad seithllawr, dan groes fawr, fawr.

Ond beth bynnag ydi'r ymateb, mae yna, ym mhob un, mi hoffwn i feddwl, chwilfrydedd digon didwyll ynglŷn â sut brofiad oedd treulio pum mis a hanner yn byw a bod yng nghanol lleianod urdd Bened ym mhrifddinas Awstria.

Rhwng mis Medi 2014 a Chwefror 2015, cwfaint Stephanushaus yn Fienna oedd fy nghartref, wrth imi dreulio'r cyfnod yn gweithio ym mhrifysgol y ddinas gerddorol, Babyddol, honno. Mae'r cwfaint yn adeilad modern ar stryd brysur Ungargasse (Stryd Hwngari), lle mae tramiau a thacsis, beics, motobeics, ceir a lorïau yn taranu heibio trwy'r dydd




a'r nos. Dyna sut oedd hi, y tu allan, yn y byd mawr, wrth i mi fynd o gwmpas fy mhethau, mynd i'r gwaith a'r londrét, mynd i siopa bwyd a chyfri' gwerth pob peth mewn ewros yn lle punnoedd.

Ond y tu mewn, cyfnod o symlrwydd di-deledu oedd hwn. Cyfnod y bwyd plaen, sych a'r te du. Cyfnod o godi am 4.30 o'r gloch y bore, bob bore, wrth imi ddod i ymgyfarwyddo â chlywed y lleianod go iawn yn ystwyrian o'u celloedd ar y llawr uwch fy mhen gan baratoi am wasanaeth a chymun chwech o'r gloch. Cyfnod o gael crap ar weddïo yn Almaeneg. A chyfnod o dawelwch a chadw cwmni â mi fy hun nad oes posib ei ddiffinio gyda'r un o fy miloedd ansoddeiriau llachar.

Yng ngogledd ddwyrain Awstria y mae mam-eglwys y lleianod sy'n gweithio yng nghwfaint wrban Stephanushaus ers 1964. Pwrpas sefydlu'r cwfaint yn Fienna hanner canrif yn ôl oedd darparu llety a chartref henoed ar gyfer offeiriaid wedi ymddeol; offeiriaid sâl heb deulu i edrych ar eu holau; ac i gynnig llety rhad ar gyfer ambell bererin fel fi.



Ac mae pob pererin yn cyrraedd efo'i gês. Yn y cês hwnnw y mae yna ddillad, llyfrau, a lle gwag i gario swfenîrs adref efo fo. Ond yn y lle gwag



hwnnw, yn ogystal â geidbwc, cawodydd eira a chardiau post, mi ffeindiais i fod yna ambell i ragfarn yn llechu hefyd...

Fel yr un sy'n cymryd yn ganiataol fod pob lleian yn glên ac yn wenau i gyd, fel tasa cariad Duw yn pelydru allan ohoni bob awr o'r dydd. Neu'r rhagdybiaeth honno fod pob lleian yn hoffi pobol ac yn ei helfen yn cymdeithasu ac yn sgwrsio efo dieithriaid. A'r gred, a'r gobaith, fod lleianod sydd wedi tyngu llw i dreulio'u hoes yn briod â'u Gwaredwr, yn ymgorfforiad grasol ohono mewn byd sy'n gallu bod mor hunanol a chreulon.

Efallai mai gwers fwyaf fy misoedd yn Stephanushaus oedd deall na fuaswn i byth yn ffitio i mewn yno, mewn gwirionedd. Dim hyd yn oed pe bawn wedi cael aros am flwyddyn. Oherwydd doeddwn i ddim yn Babydd - ac roedd hynny'n codi mur rhyngof i a phob chwaer yn syth bin. Onid ydi hi'n well gan bob un ohonan ni dreulio amser efo pobol debyg i ni? Mae'n saffach, dydi? Mae'n haws. Ac mae'n neisiach.

Yn ail, mi ddysgais fod lleianod, fel pob pererin, yn cario'u profiadau efo nhw - ac, mewn ambell achos, roedd y sgrepan yn drom gan brofiadau llym a chreulon eu bywyd cynnar. Roedd gan bob un ei rheswm, neu ei rhesymau, tros benderfynu troi cefn ar y byd a threulio'i hoes yn ymwrthod â'r drefn er mwyn gwasanaethu Duw. Weithiau, mi fyddai profiadau ddoe yn dod i'r wyneb mewn ffit o dymer ddrwg, mewn ffrae neu hyrddiau o grio direol. A doedd yr iwnifform ddim yn gysur o gwbwl ar adegau felly, pan oedd raid i'r emosiwn ffrwydro'i ffordd allan o blygion starts yr habit.



Ond roedd gofal y chwiorydd am yr offeiriaid oedrannus - sydd, oherwydd gofynion eu crefydd, yn ddibriod ac yn ddi-blant - yn gariad i gyd. Gofal anhunanol tuag at ddynion sydd, yng ngolwg y byd, wedi tyfu'n hen ar eu pennau eu hunain. A chariad difesur, fel y moroedd yn yr emyn, a diamod.

Ac efallai mai dyna sut y dylwn i feddwl am fod yn debycach i leianod Stephanushaus:

–Troi fy nghefn ar fateroliaeth a gwerthoedd ffug y byd sy'n fodlon gadael i'r gwan ddioddef;

–Bod yn barod i weiddi, dadlau a chrio fy nheimladau yn onest gerbron Duw a'm cyd-bererinion;

–Gofalu am bobol eraill, a gweithio heb ddisgwyl na chlod na thâl yn ôl.

# Tudalen y Plant

## ABRAHAM YN CROESAWU YMWELWYR
### (Genesis 18:1-15)

Roedd Duw wedi addo i Abraham a'i wraig Sara y byddent yn cael plentyn, ond roeddent wedi mynd yn hen ac yn dal heb blant. Un diwrnod, roedd Abraham yn eistedd wrth ddrws y babell lle roedd yn byw, wrth ymyl coed derw mewn lle o'r enw Mamre. Roedd hi'n boeth iawn. Edrychodd i fyny a gweld tri dyn yn sefyll o'i flaen.

Aeth Abraham allan yn syth er mwyn eu croesawu. "Os ces i ffafr yn dy olwg, Arglwydd," meddai Abraham, "tyrd i eistedd o dan y goeden yma. Mi gewch chi ddŵr i olchi eich traed a rhywbeth i'w fwyta."

Brysiodd i'r babell i ddweud wrth Sara am wneud teisennau gyda'r blawd gorau. Cymerodd yntau gaws a llaeth a chig llo tyner, i'w rhoi i'r ymwelwyr.

"Ble mae dy wraig, Abraham?" meddent.

"Yn y babell," atebodd yntau.




*Llun:* Ymweliad y Tri Angel, o **Celfyddyd yn y Traddodiad Cristnogol**
prosiect o eiddo Llyfrgell Diwinyddiaeth Nashville, TN. http://diglib.library.vanderbilt.edu/act-imagelink.pl?RC=46190

"Dof yn ôl atat yn sicr yn nhymor y gwanwyn, a chaiff Sara dy wraig fab," meddai'r Arglwydd wrth Abraham. Clywodd Sara hyn o ddrws y babell ac roedd wedi synnu cymaint nes iddi chwerthin yn uchel. Ond, yn wir, fe gafodd fab sef Isaac.

***Pa rai o'r rhain fyddai arnoch chi eu heisiau i roi croeso i ymwelwyr?***






Plant Ysgol Sul Undebol Llanfyllin, a gasglodd £394 at y Genhadaeth eleni



Bedydd Iago Tudor yn Shiloh, Tregarth